

Julie James AS/MS  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1333  
Ein cyf/Our ref JJ/01084/23

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

17 Mai 2023

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch ichi am eich llythyr ar 25 Ebrill ynghylch Deiseb P-06-1333 “Dylid atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag torri coed, sy’n bygwth parhad gwiwerod coch”.

Mae’r ddeiseb hon yn cyfeirio at faterion ynghylch diffyg data am wiwerod a lefelau gwael o gyfathrebu â rhanddeiliaid ynghylch deddfau newydd i warchod cynefinoedd gwiwerod coch a drafodwyd yn y Senedd ym mis Rhagfyr 2021, fel y codwyd mewn deiseb flaenorol sef P-06-1208. Wedi hynny, ac ar eich cais, ysgrifennais at Clare Pilman, Prif Swyddog Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ym mis Mawrth 2022, yn gofyn i CNC ystyried gwelliant parhaus drwy roi’r arferion gorau a welir yng Nghlocaenog ar waith er mwyn rheoli coetiroedd i warchod gwiwerod coch yn Ynys Môn.

Ers hynny, mae’r gwaith a gomisiynwyd gan CNC i ddiweddarau’r data am boblogaeth y wiwer goch a choladu arferion gorau ar gyfer gweithio mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch wedi ei gwblhau. Mae’r adroddiad wedi ei gyhoeddi ac mae CNC yn gweithredu’r argymhellion. Bellach mae CNC yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda grwpiau gwiwerod neu’n cysylltu’n uniongyrchol gydag Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru ym mhob ardal.

Ymddengys bod y ddeiseb wedi codi yn dilyn cyfarfod diweddaraf CNC â chynrychiolydd Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, Dr Craig Shuttleworth lle trafodwyd y gwaith cwmpo coed ym Mharc y Bwlch, Mynydd Llandygai, Gwynedd. Mae Parc y Bwlch yn rhan o Gynllun Adnoddau Coedwig Bethesda ac Abergwyngregyn a reolir gan CNC ac a adnewyddwyd yn 2021 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Dywedodd Dr Shuttleworth wrth CNC ei fod yn anghytuno â’r Cynllun Adnoddau Coedwig ac na ddylid cwmpo coed er nad yw Parc y Bwlch yn rhan o brif safle gwiwerod coch.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw CNC yn gwneud unrhyw waith monitro gwiwerod coch y tu allan i brif ardaloedd y gwiwerod coch. Fodd bynnag, maent wedi cydnabod bod Gwynedd wedi dod yn ardal bwysig i'r wiwer goch. Pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad yn 2021, nid oedd unrhyw adroddiadau bod gwiwerod coch wedi eu gweld ym Mharc y Bwlch, ond mae'r adroddiadau hyn wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf. Mae CNC yn annog pobl i wneud cofnod drwy Gytundeb Gwiwerod y DU os byddant yn gweld gwiwerod coch.

Coed llarwydd yn bennaf sydd yn yr ardal lle mae'r coed yn cael eu cwmpo, sydd â thueddiad o gael *Phytophthora Ramorum* neu Glwyf Marwol Sydyn y Derw, ac sy'n rhan o raglen waredu llarwydd CNC. Mae'r coed o'r un oedran, wedi cyrraedd eu uchder llawn, ac yn dueddol o gael eu chwythu trosodd gan y gwynt. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2021, hanerodd CNC faint y llannerch oedd yn cael ei chwmpo, gan oedi hanner y gwaith cwmpo tan y cyfnod 2026-32.

Bydd gwaith cwmpo coed yn hanner y llannerch sy'n weddill yn cael ei wneud mewn modd rhagofalus er mwyn diogelu unrhyw wiwerod coch sy'n bresennol, a bydd yn cael ei wneud y tu allan i'r cyfnod magu. Bydd gwiriadau cadwraeth llannerch sy'n cael eu gwneud cyn y gwaith cwmpo yn nodi unrhyw nythod gwiwerod sy'n bresennol ac yn hysbysu'r tîm rheoli ohonynt. Bydd methodoleg fonitro sy'n cael ei threialu yn Ynys Môn yn gymorth i CNC ddatblygu gwell dull gweithredu yn y dyfodol.

Mae staff CNC o'r gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion a rhannu arferion gorau. Mae staff yn gweithio yn ôl yr un canllawiau CNC sy'n darparu cyfarwyddyd cyson a phenodol, er bod gwahaniaethau dealladwy o ran dulliau gweithredu gan fod y gwaith o warchod gwiwerod ar wahanol gamau yn y ddau le. Mae rheoli gwiwerod coch wedi ei integreiddio yng ngwaith rheoli coedwigoedd masnachol CNC, sy'n cael ei adlewyrchu yn y cynnydd nodedig ym mhoblogaeth y wiwer goch yn Ynys Môn. Gan nad yw Parc y Bwlch yn rhan o brif ardal gwiwerod coch, ni ddylid cymharu'r ffordd y mae'n cael ei reoli â'r gwaith hwnnw yng Nghlocaenog lle bu hanes hir o reoli coedwigaeth gorchudd parhaol (CCF) sy'n ffafrio'r wiwer goch. Nid yw hynny'n bosibl ym Mharc y Bwlch lle mae'r coed mewn perygl o chwythu trosodd, ond mae wedi ei gynnwys yn y Cynllun Adnoddau Coedwig ehangach lle bo'n ymarferol. Bydd y gwaith cwmpo coed ym Mharc y Bwlch o gymorth i amrywio oedran y coed, a bydd y wiwer goch yn elwa ar hyn yn y tymor hir.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change